

Mesurau perfformiad ôl-16 cyson

Diweddariad | Mehefin 2019



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r nodyn briffio hwn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y mesurau perfformiad ôl-16 cyson newydd ac yn tynnu sylw at y camau allweddol y dylai ysgolion a cholegau eu cymryd. Cliciwch [yma](#) ar gyfer taflen sydd yn crynhoi'r mesurau.

Rydym yn croesawu eich adborth ar unrhyw agweddau ar y mesurau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch nhw i post16quality@llyw.cymru.

Y mesurau:

Cyflawniad

Cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru.

Gwerth ychwanegol

Y cynnydd sydd wedi'i wneud gan ddysgwyr, ar ben yr hyn a ddisgwylir fel arfer yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhyw.

Cyrchfannau

Cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) a/neu gyflogaeth.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Ym mis Medi 2019, byddwn yn cyhoeddi ail gyhoeddiad ystadegau Cymru gyfan mewn perthynas â **chyrchfannau** ar gyfer rhaglenni dysgu a ddaeth i ben yn 2016/17. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar gyrchfannau unigol ar gyfer ysgolion a cholegau.
- O fis Medi 2019 ymlaen, bydd **Estyn** yn ystyried y mesurau newydd ochr yn ochr â thystiolaeth ehangach o arolygiadau, e.e. drwy arsylwi ar wersi, teithiau cerdded dysgu, craffu ar waith dysgwyr ac adborth gan ddysgwyr fel rhan o'r arolygiadau.
- Mae contract **gwerth ychwanegol** ôl-16 â'r contractiwr FFT yn dod i ben yn y flwyddyn academaidd hon. Rydym yn bwriadu cynnig tendr arall am y contract yn ystod hydref eleni.
- Rydym yn gweithio gyda FFT i wella ar yr adroddiadau am y tro olaf. Bydd hynny'n golygu cynnwys 'delweddau' sy'n dangos i ysgolion a cholegau sut mae eu sgoriau gwerth ychwanegol yn cymharu â'r darlun cenedlaethol. Bydd data dros dro 2018/19 yn cael eu cyhoeddi ym mis Hydref 2019.
- Rydym wedi cyhoeddi data cychwynnol ar **gyflawniad galwedigaethol** i golegau, a byddwn yn cydweithio â'r ysgolion hynny sy'n cyflawni rhaglenni galwedigaethol, er mwyn sicrhau bod y data sy'n cael eu cyflwyno drwy Gasglu Data am Ddysgwyr Ôl-16 yn gywir.
- Rydym wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu porth ar-lein tebyg i Fy Ysgol Leol, er mwyn i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, cyflogwyr a phartion eraill â diddordeb allu cael gafael ar wybodaeth fanwl ar ddeilliannau darparwyr, rhaglenni a chyrchfannau. Y teitl gwaith ar gyfer y porth hwn yw **Dewisiadau Ôl-16**. Mae fersiwn peilot gynnar wedi'i phrofi â nifer o grwpiau ffocws i ddefnyddwyr, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, athrawon/darlithwyr a Chynghorwyr Gyrfaoedd. Bellach, rydym wedi mynd ati i ddatblygu'r safle ymhellach, gan gymryd yr adborth gan y grwpiau ffocws i ystyriaeth. Rydym yn gobeithio y bydd fersiwn gyntaf y safle ar gael tua diwedd y flwyddyn galendr hon.

Rhestr Gwirio

Yr hyn a ddylai fod yn nwylo ysgolion a cholegau ar hyn o bryd:

☒ Adroddiadau cyflawni ar gyfer 2017/18 – drwy DEWi a'r System Setiau Data Craidd Cymru Gyfan (i ysgolion)	☒ Ystadegau Cymru Gyfan ar y mesurau cyflawni ar gyfer 2017/18	☒ Adroddiadau gwerth ychwanegol ar gyfer 2017/18 – drwy Aspire Analytics	☒ Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2015/16	☒ Ystadegau Cymru Gyfan ar fesurau cyrchfannau ar gyfer 2015/16
☒ Nodiadau Esboniadol i ysgolion				
☒ Nodiadau esboniadol ar gyfer colegau addysg bellach				

Yr hyn i gadw llygad amdano yn ystod tymor yr hydref:

☐ Adroddiadau cyflawni dros dro ar gyfer 2018/19 (Sefydliadau Addysg Bellach yn unig)	☐ Ystadegau Cymru Gyfan ar fesurau cyrchfannau (Medi-19)	☐ Adroddiadau cyrchfannau ar gyfer 2016/17 (Medi-2019)	☐ Adroddiadau gwerth ychwanegol ar gyfer 2018/19 (Hyd-2019)
--	---	---	--

Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Roeddem wedi cynnal pedwar [digwyddiad rhanbarthol](#) ym mis Tachwedd i ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach.
- Rydym yn sefydlu grŵp technegol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector ac o Estyn i drafod adroddiadau ar lefel y cyrsiau ar gyfer y mesurau newydd.
- Dros yr haf, byddwn yn paratoi canllawiau drafft ar gyfer ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a'r consortia ar ddehongli'r mesurau newydd a'u defnyddio i lywio gwelliannau. Mae croeso i wirfoddolwyr adolygu'r drafft a chynnig sylwadau arno, drwy e-bostio post16quality@llyw.cymru.
- Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gyflwyno porthol ar-lein *Dewisiadau Ôl-16*.

Camau allweddol i ysgolion a cholegau

- ☒ Gwneud yn siŵr bod eich cyflwyniadau data 2018/19 yn gywir (edrychwch ar dudalen 3 ar gyfer manylion am yr amserlen casglu data)
- ☒ Gwirio canlyniadau arholiadau a chodi materion drwy ddesg gymorth FFT (ymarfer gwirio Cronfa Ddata Arholiadau Cymru)
- ☒ Adolygu'r nodiadau esboniadol ar gyfer y mesur cyflawni i wneud yn siŵr eich bod yn deall y fethodoleg, a sut gallai unrhyw anghywirdebau yn eich data effeithio ar ganlyniadau eich ysgol neu goleg
- ☒ Adolygu'r canllawiau gwerth ychwanegol a fydd ar gael gyda'r data dros dro yn yr hydref i wneud yn siŵr eich bod yn deall eich adroddiadau gwerth ychwanegol
- ☒ Integreiddio'r mesurau perfformiad newydd yn eich cylch hunanwerthuso/hunanasesu blynyddol, eich prosesau monitro perfformiad a'ch adroddiadau i lywodraethwyr
- ☒ Defnyddio ystadegau Cymru gyfan ar gyfer cyflawniadau a chyrchfannau i feicnodi eich perfformiad mewn perthynas ag ysgolion a cholegau eraill.

Casglu a gwirio data

Mae'r broses gasglu ôl-16 yn hanfodol ar gyfer cyfrifo'r mesurau cyflawni a chyrchfannau newydd; dyma unig ffynhonnell data cofrestru a chwblhau rhaglenni dysgu.

Mae'n broses gasglu ôl-weithredol sy'n digwydd ym mis Medi/Hydref bob blwyddyn ac yn cynnwys data am holl weithgareddau disgyblion ym mlynnyddoedd 12, 13 ac 14+ yn ystod y flwyddyn academaidd **flaenorol**.

Dyma'r prif newidiadau ar gyfer 2017/18:

- mae set ddata rhaglenni newydd, sy'n cynnwys data am raglenni dysgu presennol neu flaenorol pob disgybl, wedi cael ei hychwanegu; a
- bydd y Cyfeirnod Gweithgaredd Dysgu blaenorol yn cael ei ddisodli gan rif Cymeradwyo/Dynodi Cymwysterau Cymru.

Rydym wedi datblygu adroddiad rheoli DEWi sy'n cael ei gynhyrchu'n awtomatig pan fydd y ffeil gasglu ôl-16 yn cael ei llwytho i fyny i DEWi. Mae'r adroddiad yn cyfrifo ffigurau ar lefel ysgol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyfrifiad y mesurau cyflawni ôl-16 newydd, ac felly dylai Penaethiaid Chweched Dosbarth a chysylltiadau data mewn awdurdodau lleol ei ddefnyddio i'w helpu i ddilysu'r data. Rydym wedi cynhyrchu rhywfaint o [ganllawiau](#) i helpu gyda'r broses ddilysu. Mae'n bwysig bod Penaethiaid Chweched Dosbarth yn cysylltu â chyd-weithwyr sy'n cyflwyno'r data i wneud yn siŵr bod y data'n gywir.

Amserlen ar gyfer mesurau 2018/19

Mae [Calendr y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth](#) yn darparu rhestr o ddyddiadau allweddol i ysgolion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth.

Dyddiad	Gweithgaredd
Medi-2019	System Setiau Data Craidd Cymru Gyfan: adroddiadau ar ddata cyrchfannau yn cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gyfer 2016/17
Medi-2019	Gwefan: Erthygl Ystadegol: Mesurau cyrchfannau ar gyfer 2016/17
17-Medi-19 to 18-Hydref-19	DEWi: casglu data ôl-16 sy'n ymwneud â rhaglenni a gweithgareddau dysgu a ddarparwyd ym mlwyddyn academaidd 2018/19
Hydref-19	DEWi: Ysgolion yn gwirio canlyniadau arholiadau ac yn codi materion drwy ddesg gymorth FFT (ymarfer gwirio Cronfa Ddata Arholiadau Cymru)
Hydref-19	Aspire Analytics: provisional value added reports based on 2018/19 data issued to schools and local authorities
Hydref-19	All Wales Core Dataset System: provisional achievement data reports issued to schools and local authorities using 2017/18 and 2018/19 data
Chwefror-20	All Wales Core Dataset System: final achievement data reports issued to schools and local authorities using 2017/18 and 2018/19 data
Chwefror -20	Gwefan: Datganiad Ystadegol: Mesurau cyflawni ar gyfer 2018/19
Chwefror -20	Aspire Analytics: adroddiadau gwerth ychwanegol terfynol yn seiliedig ar ddata 2018/19 yn cael eu cyhoeddi i ysgolion ac awdurdodau lleol.
Gwanwyn-20 (dyddiad i'w gadarnhau)	Dewisiadau Ôl-16: data ysgolion a cholegau unigol ar gyfer pob un o'r mesurau yn cael eu cyhoeddi gan ddefnyddio data 2017/18 a 2018/19